

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Cefn Carnau Uchaf

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Gefn Carnau Uchaf fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn ffurfio rhan o ddull gweithredu haenog o ran sicrwydd ac mae'n un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Deddf Safonau Gofal 2000, Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a rheoliadau perthnasol eraill. Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig ar 12 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom siarad â'r rheolwr cofrestredig i weld sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol

(PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Mae'n galonogol mai nifer cymharol brin o achosion cadarnhaol o'r coronafeirws a gafwyd ymhlith y cleifion yng Nghefn Carnau. Cafodd yr holl achosion tybiadol eu hadolygu gan y staff clinigol bob dydd ac ynyswyd yr achosion a gadarnhawyd a'u nyrsio mewn ffordd ataliol gan ddefnyddio'r PPE priodol yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Rhoddodd yr ysbyty ddiweddariadau wythnosol i GIG Cymru am ei statws COVID-19 drwy gydol y pandemig.

Caiff cyflenwadau PPE eu gwirio ddwywaith yr wythnos ac ailgyflenwir y stoc yn awtomatig yn seiliedig ar y wybodaeth hon. Mae'r staff wedi gwyllo fideos am y ffordd gywir o wisgo a diosg PPE yn ddiogel er mwyn lleihau'r risg o haint.

Yn ystod y cyfyngiadau symud, rhoddwyd mwy o bwyslais ar sicrhau bod gan y cleifion ardal fyw lân a chyfforddus. Er enghraifft, roedd yr ystafelloedd gwely yn cael eu glanhau'n drylwyr yn amlach a phrynwyd eitemau synhwyraidd er mwyn helpu i greu amgylchedd plaserus i fyw ynddo. Yn ystod y cyfnod hwn roedd gan y staff hefyd fwy o amser i weithio gyda'r cleifion i'w hannog a'u helpu gyda'u cyfundrefnau domestig a gofal personol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod addasiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd ac o ran symudiadau cleifion a'r staff drwy'r ysbyty er mwyn lleihau'r risg o ledaenu'r feirws. Am fod nifer cymharol fach o gleifion ar bob un o'r tair ward, cafodd pob ward ei thrin fel 'aelwyd' ar wahân. Nod hyn oedd ceisio lleihau effaith y cyfyngiadau symud ar y cleifion a rhoi elfen o gysondeb iddynt o ran eu harferion dyddiol. Er enghraifft, golygai hyn fod modd i'r cleifion nad oedd ganddynt unrhyw symptomau dreulio amser gyda'i gilydd yn yr ardaloedd cymunedol ac yn ystod prydau bwyd, a arhosodd yr un peth.

Yn sgil y cyfyngiadau ar ryddhau cleifion o'r ysbyty dros dro yn ystod y pandemig, cafodd cynorthwyydd therapi galwedigaethol ei ddyrannu ar gyfer pob ward er mwyn rhoi amserlen therapiwtig wedi'i haddasu ar waith i'r cleifion ymgysylltu â hi. Mae'r cleifion wedi gallu

cymryd taith ar-lein rithwir i ddysgu am amgueddfeydd gwahanol ledled y byd a chafodd siop ei sefydlu ar y safle i'r cleifion er mwyn iddynt ymarfer y gweithgareddau y byddent yn eu cyflawni pan fyddai modd iddynt adael yr ysbyty eto. Hyrwyddwyd defnydd o'r awyr agored lle bynnag y bo modd. Cynhaliwyd cyfarfodydd cymunedol yn yr awyr agored ac mae'r cleifion wedi bod yn helpu i gynnal a chadw'r tai gwydr a'r polydwneli yn yr ardd. Nodwyd bod y mentrau hyn a ddisgrifiwyd inni gan y rheolwr cofrestredig yn arfer dda.

Anogwyd y cleifion i siarad â theulu a ffrindiau dros y ffôn a bu modd iddynt siarad ag eiriolwr ddwywaith yr wythnos er mwyn helpu i ddiogelu eu hawliau a siarad am unrhyw anawsterau y gallent fod yn eu cael.

Mae'r ysbyty yn mynd ati'n raddol i ailintegreiddio'r cleifion yn ddiogel drwy'r ysbyty wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio. Lluniwyd polisi ymwelwyr newydd hefyd er mwyn ailgyflwyno ymweliadau gan deuluoedd a ffrindiau'r cleifion unwaith eto a chydlynu'r ymweliadau hynny'n ddiogel.

Mae'r staff wedi bod yn monitro effaith y newidiadau hyn ar y cleifion a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad yw'r ysbyty, yn gyffredinol, wedi gweld cynnydd mewn ymddygiadau heriol drwy gydol y cyfnod hwn.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Datblygwyd protocolau a chanllawiau penodol ar gyfer COVID-19 er mwyn amlinellu'r trefniadau ychwanegol newydd ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod y rhain ar gael i bob aelod o'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Arddangoswyd posteri ar draws yr ysbyty i atgoffa'r cleifion a'r staff am bwysigrwydd golchi dwylo yn rheolaidd. Rhannwyd cyngor diweddaraf y llywodraeth neu newidiadau i drefniadau lleol â'r staff drwy e-bost a chyfarfodydd staff ac â'r cleifion yn eu cyfarfodydd dyddiol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod pob rhan o'r ysbyty yn cael ei glanhau'n amlach ac yn arbennig ym mhob ward er mwyn helpu i leihau croes-heintio. Sefydlwyd gorsafoedd PPE ac ardal ddynodedig i'r staff wisgo a diosg PPE yn ddiogel. Mae rheolwr ward neu reolwr gwasanaethau clinigol ar y safle rhwng 9am a 5pm ar y penwythnosau er mwyn helpu i sicrhau cysondeb o ran cyfrifoldebau atal a rheoli heintiau â staff nad ydynt o bosibl yn eu gweithio yn ystod yr wythnos.

Cynhelir archwiliadau atal a rheoli heintiau safonol bob blwyddyn ar draws yr ysbyty. Ym mis Mawrth 2020 y cafodd yr archwiliadau hyn eu cynnal ddiwethaf ar bob ward ac ni nodwyd unrhyw faterion na phryderon. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n trefnu i'r archwiliadau hyn gael eu cynnal eto ym mis Medi 2020 a byddai AGIC yn disgwyl i'r archwiliadau gael eu diwygio er mwyn monitro cydymffurfiaeth â'r trefniadau rheoli heintiau newydd a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Roedd polisi atal a rheoli heintiau Cefn Carnau yn bolisi safonol a ddefnyddiwyd ar draws holl leoliadau gofal iechyd Elysium. Mae'r polisi yn cyfeirio at y Comisiwn Ansawdd Gofal a chanllawiau a deddfwriaeth sydd ond yn berthnasol i Loegr. Argymhellwn y dylid diwygio'r polisi atal a rheoli heintiau fel ei fod yn fwy cymwys i'r trefniadau lleol sydd ar waith yng Nghefn Carnau. Rhaid i'r polisi hefyd gyfeirio at y sefyllfa yng Nghymru; er enghraifft, cyfeirio at AGIC a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod ffurflenni 'staffio diogel' yn cael eu cwblhau gan reolwyr wardiau bob dydd er mwyn sicrhau bod nifer priodol o staff hyfforddedig ar ddyletswydd bob amser ar bob ward. Effeithiodd absenoldebau staff ar yr ysbyty ar ddechrau'r pandemig gyda nifer o'r staff yn gorfod gwarchod neu ynysu eu hunain. O ganlyniad, defnyddiwyd mwy o staff asiantaeth a banc. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod disgwyl i'r defnydd o staff asiantaeth a banc leihau dros y misoedd nesaf gan y byddai'r staff yn dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn gwarchod. Gwnaethom edrych ar nifer y staff a oedd ar ddyletswydd ar ddiwrnod y gwiriad ansawdd a nodwyd ei fod yn briodol o ystyried nifer y cleifion.

Cyflwynwyd mentrau newydd gan brif swyddfa Elysium Healthcare yn ystod y pandemig er mwyn helpu i gynnal llesiant y staff. Roedd y tîm llesiant canolog yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau COVID-19 a chynghor yn hynny o beth yn rheolaidd ac roedd 'Gwobr Seren' a rhoddion yn cael eu rhoi er mwyn gwobrwyo'r staff. Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg wedi'u cwblhau ar gyfer y staff hynny a oedd yn poeni am weithio'n ddiogel yn ystod y

pandemig a chafodd y staff roedd disgwyl iddynt ddychwelyd o warchod gynnig sifftiau byrrach i ddechrau i'w helpu i ailintegreiddio.

Parhawyd i gynnal cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol bob mis ar gyfer pob ward drwy gydol y pandemig a gwnaed apwyntiadau brys gyda phroffesiynau eraill lle y bo angen. Diogelwyd hawliau'r cleifion i'w hachosion gael eu hadolygu gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a threfnwyd i gyfarfodydd ddigwydd yn rhithwir.

Bu'n her i'r staff gwblhau hyfforddiant yn yr ysbyty drwy gydol y pandemig oherwydd absenoldebau staff a'r cyfyngiad ar hyfforddiant lle mae pobl yn agos i'w gilydd; er enghraifft, gwelsom gyfradd gydymffurfiaeth o 63% mewn perthynas â hyfforddiant torri i ffwrdd a chyfradd gydymffurfiaeth gyffredinol o 88% gan y staff â hyfforddiant gorfodol. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym am gyrsiau hyfforddi i ddod a drefnwyd i unioni'r sefyllfa hon a byddai AGIC yn disgwyl gweld gwelliant parhaus mewn lefelau cydymffurfio cyffredinol ar gyfer hyfforddiant gorfodol staff erbyn arolygiad nesaf yr ysbyty.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Cynllun gwella

Lleoliad: Cefn Carnau Uchaf

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn. Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r polisi atal a rheoli heintiau gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru ac amlinellu'r trefniadau lleol sydd ar waith yng Nghefn Carnau.	Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru Safon 13	Diwygio'r polisi rheoli heintiau i adlewyrchu'r ffaith bod yr Ysbyty dan ICC ac AGIC.	Claire Cawley Andrew Goldsworthy	1 Hydref

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Andrew Goldsworthy

Dyddiad: 03 Medi 2020